**WG52741**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoleiddio arolygu Addysg Bellach a Hyfforddiant

Dirymu a disodli Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001

15 Awst 2025

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol

## Trosolwg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad yn ddiweddar ar Reoliadau drafft Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2026 ("Rheoliadau 2026") a fydd yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001") i adlewyrchu rôl y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (a elwir bellach yn Medr) yn y trefniadau arolygu ac ansawdd mewn perthynas ag arolygu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, a newidiadau deddfwriaethol i gyfnod adrodd Estyn er mwyn i'r sectorau addysg bellach a hyfforddiant ôl-16 fod yn gyson â sectorau eraill. Roedd yr ymgynghoriad yn fyw rhwng 28 Ebrill 2025 a 20 Mehefin 2025. Cafwyd 9 ymateb gan sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys Medr ac Estyn.

## Camau i'w cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: [Rheoleiddio arolygu Addysg Bellach a Hyfforddiant | LLYW.CYMRU]

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Tîm Gweithredu TERA
Y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: TER.Consultations@llyw.cymru

WG_Education

Facebook/EducationWales

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig. Maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

This document is also available in English: [Regulating the inspection of Further Education and Training | GOV.WALES]

# Cynnwys


**Cefndir** **4**
**Cyflwyniad** **5**
**Crynodeb o’r ymatebion** **6**
Cwestiwn 1 6
Dadansoddiad cryno 6
Ymateb Llywodraeth Cymru 6
Cwestiwn 2 6
Dadansoddiad cryno 7
Ymateb Llywodraeth Cymru 7
Cwestiwn 3 7
Dadansoddiad cryno 7
Ymateb Llywodraeth Cymru 8
Cwestiwn 4 8
Dadansoddiad cryno 8
Ymateb Llywodraeth Cymru 9
Cwestiwn 5 9
Dadansoddiad cryno 9
Ymateb Llywodraeth Cymru 9
Materion ychwanegol a godwyd 9
**Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr** **11**

# Cefndir

Cafodd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 Gydsyniad Brenhinol ar 8 Medi 2022. Roedd y Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu Medr a diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("CCAUC"). Sefydlwyd Medr fel endid cyfreithiol ar 15 Rhagfyr 2022 a daeth yn weithredol o 1 Awst 2024, sef y dyddiad pan ddiddymwyd CCAUC.

Ar ôl cychwyn yr holl ddarpariaethau perthnasol yn y Ddeddf, bydd Medr yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, gan gwmpasu'r sectorau canlynol:

- Addysg bellach, gan gynnwys colegau a chweched dosbarth ysgolion
- Addysg uwch, gan gynnwys ymchwil ac arloesi
- Addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned
- Prentisiaethau a hyfforddiant.

O fis Ebrill 2026 ymlaen, bydd Medr yn dod yn gyfrifol am oruchwylio a chyllido gwaith arolygu addysg bellach a hyfforddiant craidd Estyn fel y nodir yn adran 57(1) o’r Ddeddf, arolygiadau ardal fel y nodir yn adran 63 o'r Ddeddf, ac adolygiadau thematig.

Bydd Estyn o dan ddyletswydd hefyd i ddarparu cyngor ac arweiniad ynghylch arolygu ac ansawdd addysg bellach a hyfforddiant ôl-orfodol (gan gynnwys chweched dosbarth ysgolion) i Weinidogion Cymru a Medr.

# Cyflwyniad

Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Reoliadau drafft Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2026 ("Rheoliadau 2026") a fydd yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 ('Rheoliadau 2001') i adlewyrchu rôl Medr yn y trefniadau arolygu ac ansawdd ar gyfer arolygu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, a newidiadau deddfwriaethol i gyfnod adrodd Estyn er mwyn i'r sectorau addysg bellach a hyfforddiant ôl-16 fod yn gyson â sectorau eraill.

Roedd yr ymgynghoriad yn fyw rhwng 28 Ebrill 2025 a 20 Mehefin 2025. Cafwyd 9 ymateb i'r ymgynghoriad gan sefydliadau yng Nghymru. Cafwyd un ymateb ysgrifenedig hefyd a oedd yn ymdrin â materion y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad 1.

At ddibenion dadansoddi, cafodd yr holl ymatebion eu cadw'n ddiogel. Pan nodwyd cytundeb, cofnodwyd manylion yr ymatebwyr ynghyd â manylion yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law i'r cwestiynau penodol a holwyd, ac yn nodi ffordd ymlaen.

# Crynodeb o'r ymatebion

## Cwestiwn 1

A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddirymu a disodli Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 i gydgrynhoi ac adlewyrchu rôl statudol y Comisiwn wrth arfer ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau statudol fel y nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022?

Cytuno: 7
Anghytuno: 1
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 1

### Dadansoddiad cryno

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn, gan dynnu sylw at yr angen i'r Rheoliadau adlewyrchu rolau statudol Estyn a Medr fel y nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen am ddeialog barhaus â sefydliadau addysg bellach i sicrhau bod trefniadau yn y dyfodol yn adlewyrchu anghenion penodol y sector.

Roedd un ymatebydd yn anghytuno, gan fynegi pryder am gymhlethdod sefydliadau addysg bellach a goblygiadau newidiadau rheoleiddiol.

Dywedodd ymatebydd arall nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno, gan nodi'r amrywiaeth o ddarparwyr addysg ôl-16 a'r her o gymhwyso fframwaith rheoleiddio unffurf.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth eang i'r cynnig i ddirymu a disodli Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud Rheoliadau 2026 a darparu eu bod yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd am gymhlethdod ac amrywiaeth y sector addysg ôl-16 ac yn ailddatgan ein hymrwymiad i barhau i ymgysylltu ag Estyn, Medr a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio newydd yn gymesur, yn gynhwysol ac yn ymateb i anghenion yr holl ddarparwyr.

## Cwestiwn 2

A ydych yn cytuno â'r trefniadau pontio sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau drafft, fel y'u nodir yn y tabl yn rheoliad 2, sy'n sicrhau parhad y cyfnod arolygu 6 blynedd presennol a ddechreuodd o dan Reoliadau 2001?

Cytuno: 7

Anghytuno: 1
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 1

### Dadansoddiad cryno

Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr â'r trefniadau pontio arfaethedig i sicrhau parhad y cyfnod arolygu 6 blynedd presennol.

Er eu bod yn gefnogol yn gyffredinol, tynnodd dau ymatebydd sylw at feysydd pryder posibl. Nododd un y gallai arolygiadau peilot yn 2024 arwain at ddechrau cylchoedd yn gynharach, a nododd un arall bod angen eglurder ynghylch a fyddai arolygiadau yn cael eu cynnal ledled campws neu yn ôl maes darpariaeth.

Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno, gan nodi natur amrywiol sefydliadau ôl-16.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r cytundeb cyffredinol â'r trefniadau pontio arfaethedig ar gyfer cynnal parhad y cylch arolygu chwe blynedd presennol yn galonogol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd eglurder a thegwch yn y broses bontio.

Nodwyd y sylwadau ynghylch arolygiadau peilot a'r angen am ragor o fanylion am sut y bydd arolygiadau yn cael eu strwythuro ar draws y gwahanol fathau o ddarpariaeth, ac maent wedi'u trosglwyddo i Estyn i'w hystyried. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw Llywodraeth Cymru, Medr nac Estyn yn dymuno gorlwytho'r sector a bydd y pwyntiau hyn yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod y broses ar gyfer gweithredu'r fframwaith newydd yn deg ac yn dryloyw.

## Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno y dylid diwygio'r amserlen ar gyfer gwneud adroddiadau arolygu addysg bellach a hyfforddiant, o 70 diwrnod gwaith i 35 diwrnod gwaith, yn unol ag arolygiadau eraill a gynhelir gan Estyn?

Cytuno: 7
Anghytuno: 2
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 0

### Dadansoddiad cryno

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr â'r cynnig i ddiwygio'r amserlen ar gyfer yr adroddiadau arolygu o 70 i 35 diwrnod gwaith. Roedd y manteision a amlygwyd yn cynnwys adborth mwy amserol a chysondeb ag arolygiadau ysgolion.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai adroddiadau thematig hefyd gadw at yr amserlen hon i gynnal perthnasedd.

Roedd dau ymatebydd yn anghytuno, gan godi pryderon am gymhlethdod a graddfa sefydliadau addysg bellach, y risg o adroddiadau'n cael eu rhuthro ac o ansawdd is, a'r canfyddiad bod addysg bellach yn cael ei gorfodi i ddilyn model sy'n seiliedig ar ysgolion.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig i leihau'r amserlen ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu o 70 i 35 diwrnod gwaith, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yn Rheoliadau 2026.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a godwyd am yr effaith bosibl ar ansawdd yr adroddiadau a'r heriau gweithredol ar gyfer sefydliadau mwy o faint a mwy cymhleth.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gydag Estyn i ddatblygu'r cynnig hwn a bydd yn parhau i wneud hynny i sicrhau bod yr amserlen ddiwygiedig yn cael ei gweithredu mewn ffordd sy'n cynnal trylwyredd a defnyddioldeb canlyniadau arolygu.

Mae'r ddarpariaeth yn Rheoliadau arfaethedig 2026 mewn perthynas â'r amserlenni ar gyfer gwneud a chyhoeddi adroddiadau arolygu yn ymwneud ag arolygiadau addysg a hyfforddiant penodol ac arolygiadau ardal.

Fel y cyfryw, nid yw adroddiadau a gynhyrchir yn dilyn adolygiad thematig yn dod o fewn cwmpas Rheoliadau 2026. Mae adolygiadau thematig yn seiliedig ar ymchwil a gallant amrywio o ran maint a chymhlethdod, ac felly mae'r amserlen ar gyfer pob adroddiad yn cael ei drafod yn unigol.

## Cwestiwn 4

Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y ddeddfwriaeth ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A ydych yn credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau positif?
Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Dadansoddiad cryno**

Er bod rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r newidiadau yn cael effaith uniongyrchol gyfyngedig, nododd eraill gyfleoedd a risgiau.

Roedd y cyfleoedd cadarnhaol yn cynnwys hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan arwain at gynnydd tebygol yn y defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau addysg drydyddol ac ymchwil. Awgrymodd ymatebwyr hefyd y gall sefydlu mecanweithiau ar gyfer cael adborth parhaus gan fyfyrwyr a staff

helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r Rheoliadau.

Codwyd pryderon am y prinder arolygwyr dwyieithog a'r angen am adnoddau a chapasiti digonol o fewn Estyn a sefydliadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion meddylgar ynghylch effeithiau posibl y ddeddfwriaeth arfaethedig ar y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro gweithrediad y rheoliadau, ynghyd â'r fframwaith deddfwriaethol ehangach, er mwyn sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chefnogi.

## Cwestiwn 5

Yn eich barn chi, sut y gellid llunio neu newid y ddeddfwriaeth er mwyn:

- cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Dadansoddiad cryno**

Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn, gyda rhai ymatebwyr ddim yn cynnig unrhyw sylwadau pellach ac eraill yn galw am sicrwydd y bydd y Gymraeg yn cael ei hintegreiddio'n llawn ym mhob agwedd ar y broses weithredu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn ailadrodd ei hymrwymiad i Safonau'r Gymraeg a bydd yn sicrhau bod pob proses reoleiddio yn cynnal yr egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Medr i archwilio cyfleoedd i gryfhau rôl y Gymraeg mewn addysg drydyddol drwy barhau i ddatblygu polisi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## Materion ychwanegol a godwyd

Codwyd mater pellach gan ymatebwyr yn ymwneud â'r heriau o ran sicrhau system reoleiddio unffurf a allai weithredu ar draws addysg bellach, chweched dosbarth ysgolion ac addysg uwch, o ystyried amrywiaeth y ddarpariaeth ar draws y sectorau hyn.

Yn ogystal â'r prif ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, cawsom hefyd lythyr ar faterion cysylltiedig sy'n bwysig eu cydnabod.er nad ydynt yn uniongyrchol o fewn cwmpas yr ymgynghoriad. Mae'r materion hyn yn cynnwys effaith arolygiadau ar iechyd meddwl, llwyth gwaith a chydbwysedd rhwng bywyd gwaith, a galwad am ddull ehangach, mwy cyfannol o ddiwygio arolygu.

# Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr

- UCAC
- Estyn
- Colegau Cymru
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Medr

- Dewisodd 4 ymatebydd aros yn ddienw.